Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 17/07/20 |
| **Pwnc / Subject:** | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae FfCChC yn ffurfio rhan o werthusiadau Estyn o waith darparwyr. Er enghraifft, wrth ystyried y safonau a'r ddarpariaeth mewn coleg addysg bellach, ysgol uwchradd neu ddarparwr hyfforddiant dysgu yn y gwaith, rydym ni'n defnyddio dealltwriaeth ar y cyd yn deillio o FfCChC o ddisgwyliadau dysgwyr, a gofynion cwrs ar lefel 1, lefel 2, ac ati. Fodd bynnag, nid yw fframwaith arolygu Estyn yn edrych yn eglur ar FfCChC ac nid ydym ni'n aelod o Grŵp Cynghori FfCChC.

At ei gilydd, rydym ni'n cytuno bod FfCChC yn darparu fframwaith lefel uchel defnyddiol ar gyfer y rhai sy'n cynllunio cymwysterau a chwricwla, ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yn gyffredinol, ac ar gyfer y rhai, fel cyflogwyr neu ddysgwyr, sy'n ceisio deall a dehongli'r system gymwysterau.

Ceir ystod ddefnyddiol o wybodaeth am FfCChC ar y wefan. Yn benodol, mae'r 'diagram ffan' yn graffeg fuddiol i ddangos cysyniad allweddol y lefelau.

Rydym ni'n cytuno ei bod yn bwysig fod cymwysterau a dysgu achrededig a gyflawnir yng Nghymru yn cyfeirio at y rhai yn y DU, Ewrop a thu hwnt, lle bo modd, ac felly, mae ganddynt gludadwyedd priodol.

Mae grŵp cynghori yn bwysig i sicrhau bod ystod eang o randdeiliaid yn cyfrannu at ddatblygu FfCChC. Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolaeth o ddefnyddwyr cymwysterau, fel cyflogwyr, ac o ddysgwyr. At ddibenion tryloywder, gallai fod yn fuddiol cyhoeddi aelodaeth y Grŵp Cynghori.

Mae tri philer FfCChC yn cwmpasu sbectrwm eang o ddysgu ôl-14 yng Nghymru. Yn benodol, mae'r piler Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn darparu fframwaith a allai fod yn ddefnyddiol iawn yn y cyfnod ar ôl y coronafeirws lle gallai dysgwyr sy'n oedolion yn benodol (p'un a ydynt yn ddysgwyr yn y gwaith, yn y gymuned, neu'r rhai sy'n ddi-waith) gael llai o gyfle i elwa ar gyfleoedd dysgu ffurfiol. Gallai'r cyfle i gydnabod darnau bach tameidiog o ddysgu trwy'r broses dysgu achrededig unedol fod yn ddefnyddiol iawn.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| |
|---|
| C2 – Rôl yr ymatebwr<br><br>Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |

| |
|---|
| C3 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: Mae FfCChC yn ategu strategaethau yn ymwneud â chymwysterau a dysgu yng Nghymru<br><br>• Cytuno<br><br>Sylw<br><br>Mae FfCChC yn ffurfio fframwaith defnyddiol lefel uchel ar gyfer y rhai sy'n cynllunio cymwysterau a chwricwla, ac ar gyfer y rheiny, fel cyflogwyr, sy'n dymuno deall y system gymwysterau yn fwy cyffredinol. |

| |
|---|
| C4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: Mae FfCChC yn gweithio fel fframwaith cymwysterau cenedlaethol swyddogaethol sy'n cynorthwyo â deall y system gymwysterau, a'r cymwysterau oddi mewn iddi<br><br>• Cytuno |

| |
|---|
| C5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: Defnyddiwyd FfCChC i esbonio'r dirwedd cymwysterau sy'n newid yng Nghymru.<br><br>• Dim Barn<br><br>Sylw<br><br>Mae gweithwyr addysg proffesiynol yn deall y cysyniad o lefelau a chredydau a gynhwysir yn y fframwaith, ac mae gan y rheiny sy'n gweithio ym maes cynllunio cymwysterau ddealltwriaeth fanylach o FfCChC. Nid oes gennym farn ar ba mor helaeth y defnyddiwyd y fframwaith i esbonio'r dirwedd cymwysterau sy'n newid yng Nghymru. |

| |
|---|
| C6 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: Roedd defnyddio FfCChC yn elfen bwysig wrth fwrw ymlaen â deilliannau'r adolygiad o gymwysterau.<br><br>• Dim Barn |

C7 – I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth strategol digonol i sicrhau dealltwriaeth o FfCChC ar draws y sector addysg a hyfforddiant.

- Dim Barn

C8 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae strategaeth gyfathrebu a marchnata effeithiol ar gyfer FfCChC.

- Cytuno

Sylw

Mae tudalen we FfCChC (https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw) yn cynnwys ystod ddefnyddiol o ganllawiau, deunydd esboniadol ac astudiaethau achos, sy’n berthnasol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae’r ‘diagram ffan’, yn benodol, yn graffeg glir sy’n esbonio’r lefelau a’u cymwysterau cysylltiedig yn dda, ac mae ymarferwyr yn ei ddeall yn dda.

C9 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae’n bwysig fod FfCChC yn gydnaws â’r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd i alluogi cyfeirio ein cymwysterau â gweddill Ewrop.

- Cytuno'n Gryf

Sylw

Mae’n bwysig fod cymwysterau a dysgu achrededig a gyflawnir yng Nghymru yn cyfeirio at y rhai yn y DU, Ewrop, a thu hwnt, lle bo modd, a bod ganddynt ‘gludadwyedd’ priodol.

C10 I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae’n bwysig fod FfCChC yn gydnaws â fframweithiau eraill y DU i sicrhau bod safonau cyffredin yn cael eu cynnal, cydnawsedd a chydweithrediad.

- Cytuno'n Gryf

Sylw

Credwn ei bod yn bwysig fod cymwysterau a dysgu achrededig a gyflawnir yng Nghymru yn cyfeirio at y rhai yn y DU, Ewrop, a thu hwnt, lle bo modd, ac felly bod ganddynt gludadwyedd priodol.

C11 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae’n bwysig fod FfCChC yn cael ei gynghori gan Grŵp Cynghori sy’n adlewyrchu rhanddeiliaid o bob rhan o’r sector addysg, dysgu a hyfforddiant yng Nghymru.

- Cytuno'n Gryf

Sylw

Dylai’r grŵp gynnwys cynrychiolaeth o ddefnyddwyr cymwysterau, fel cyflogwyr, ac o ddysgwyr. At ddibenion tryloywder, gallai fod yn fuddiol cyhoeddi aelodaeth y Grŵp Cynghori. Gallai fod yn fuddiol ystyried y cyfraniad y gallai Estyn ei wneud at y grŵp – er enghraifft o ran darparu adborth ar ddefnyddio a chyflwyno cymwysterau yn gyffredinol yn y darparwyr rydym ni’n eu harolygu.

C12 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae angen gwerthuso FfCChC yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn bodloni ei amcanion.

- Cytuno

Sylw

Rydym ni’n cytuno bod adolygu rheolaidd yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae sefydlogrwydd yn bwysig hefyd. Ni fyddem yn argymell adolygu’r fframwaith yn amlach na phob pum mlynedd.

C13 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae FfCChC yn parhau i fod yn rhan berthnasol o’r system credydau a chymwysterau yn y dirwedd wleidyddol a pholisi bresennol yng Nghymru.

- Cytuno

Sylw

Mae FfCChC yn ffurfio fframwaith defnyddiol lefel uchel ar gyfer y rhai sy’n cynllunio cymwysterau a chwricwla, ac ar gyfer y rheiny, fel cyflogwyr, sy’n dymuno deall y system gymwysterau yn fwy cyffredinol.

C14 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae’r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer FfCChC yn effeithiol

- Dim Barn

C15 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Gellid datblygu FfCChC ymhellach.

- Dim Barn

C16 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: Mae agweddau ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru neu grwpiau penodol o ddysgwyr a allai elwa ar wneud mwy o ddefnydd o’r offer a ymgorfforir yn FfCChC (cronni credydau, trosglwyddo credyd, cydnabod dysgu blaenorol).

- Cytuno

Sylw

Mae tri philer FfCChC yn cwmpasu sbectrwm eang o ddysgu ôl-14 yng Nghymru. Yn benodol, mae’r piler Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd yn darparu fframwaith a allai fod yn ddefnyddiol iawn yn y cyfnod ar ôl y coronafeirws lle gallai dysgwyr sy’n oedolion yn benodol (p’un a ydynt yn ddysgwyr yn y gwaith, yn y gymuned, neu’r rhai sy’n ddi-waith) gael llai o gyfle i elwa ar gyfleoedd dysgu ffurfiol. Gallai’r cyfle i gydnabod darnau bach tameidiog o ddysgu trwy’r broses dysgu achrededig unedol fod yn ddefnyddiol iawn.

C17 – Pa mor bwysig yw cryfderau canlynol FfCChC yn yr hinsawdd bresennol, yn eich barn chi (yn seiliedig ar Adolygiad 2014)?

- Cydnabod dysgu anffurfiol – Pwysig iawn
- Cylchrediad cyffredin – gallu disgrifio a chyfleu cyflawniad ar draws sectorau, lefelau ac ardaloedd daearyddol - Pwysig iawn
- Meincnodi a mapio - Pwysig iawn
- Hyblygrwydd – wrth gynllunio rhaglenni ac osgoi ailadrodd dysgu - Pwysig iawn
- Ehangu’r cwmpas ar gyfer darparwyr a darparu cymwysterau - Pwysig
- Natur drosglwyddadwy y tu allan i Gymru trwy feincnodi i fframweithiau cymwysterau cenedlaethol eraill - Pwysig iawn

C18 – I ba raddau yr aethpwyd i’r afael â’r gwendidau canlynol a nodwyd yn Adolygiad 2014 o FfCChC, yn eich barn chi?

- Diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltu – Dim barn
- Beichiau gweinyddol – lefelau biwrocratiaeth - Dim barn
- Rhwystr rhag ymgysylltu â chyflogwyr - Dim barn
- Cydnabod Dysgu Blaenorol – Dim barn

C19 – A fyddech chi’n barod i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol byr dros y ffôn? Os felly, rhowch eich enw, eich rhif ffôn, a’ch cyfeiriad e-bost yn y blwch isod. Bydd trefniadau ar gyfer amser cyfleus a rhif ffôn yn cael eu gwneud trwy’r e-bost. Byddwn / Na fyddwn. Manylion cyswllt

Byddwn. Steve Bell – steve.bell@estyn.gov.wales